# TWISTLETON, GEORGE (1618-1667), swyddog ym myddin y Senedd

**Enw:** George Twistleton
**Dyddiad geni:** 1618
**Dyddiad marw:** 1667
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** swyddog ym myddin y Senedd
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** William Gilbert Williams

Trydydd mab John Twistleton, Barley Hall, sir Efrog. Gwasnaethodd dan y cadfridog Mytton, a chynorthwyodd yng ngwarchae ac ennill castell Dinbych. Gwnaed ef yn llywydd y castell yn 1647. Yn fuan ar ôl hyn priododd â Mari Glynn, merch William Glynn, y Lleuar, Sir Gaernarfon, a gor-or- yres William Glynn y Sarsiant. Bu Twistleton yn amlwg yn erbyn y gwahanol ymgyrchoedd a wnaed yng Ngwynedd ymhlaid Siarl frenin, a bu yn yr ysgarmes ar y Dalar Hir, Llandegai, 5 Mehefin 1648, pan orchfygwyd ac y daliwyd Syr John Owen, Clenennau. Yr oedd hefyd yn aelod o'r Uchel Lys a nodwyd i brofi'r brenin Siarl, yn ogystal ag o amryw gomisiynau a drefnwyd yngl n ag atafaelu, etc., yn nyddiau'r Weriniaeth. Codwyd ef yn aelod seneddol tros Fôn yn 1659. Ar ôl yr Adferiad ymsefydlodd yn y Lleuar, ac nid ymddengys iddo gael aflonyddu arno oherwydd ei weithgarwch yn ystod cyfnod y Weriniaeth. Bu farw 12 Mai 1667 a chladdwyd ef yn eglwys Clynnog, lle y gwelir ei fedd hyd heddiw. Goroesodd ei briod ef hyd 1676. Priododd eu mab ac etifedd

GEORGE TWISLETON (1652 - 1714),

â Margaret, ferch William Gruffydd, Cefn Amwlch, a bu'n ustus heddwch yn Sir Gaernarfon ac yn siryf yn 1682-3; bu farw 26 Rhagfyr 1714. Dilynwyd ef yn y Lleuar gan ei fab

GEORGE TWISLETON,

a briododd Barbara Jackson o Lundain; bu ef farw 22 Rhagfyr 1732. Disgynnodd y stad i ddwylo eu merch Mary, a briododd y capten William Ridsdale o Ripon. Wedi gwerthu'r stad i Syr Thomas Wynn, Glynllifon, lladdwyd y capten ym mrwydr Dettingen yn 1743 a darfu am hil Glyniaid y Lleuar.

## Awdur

**William Gilbert Williams**, (1874 - 1966)

## Ffynonellau


J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 270

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

*Archaeologia Cambrensis*

Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5545380

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu